

## **Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda, Practis  
Deintyddol Brynteg  
(Caerfyrddin)**

19 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd amgen a fformatau eraill gael eu llunio, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.

Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [AGIC@wales.gsi.gov.uk](mailto:AGIC@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .....	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	16
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Bractis Deintyddol Brynteg, yn Nhŷ Brynteg, Dan y Banc, Caerfyrddin, SA31 1JN, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel ar 19 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.<sup>1</sup> Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>2</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiedig) 2011.<sup>3</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Rhoddir manylion am unrhyw ganfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Brynteg (Caerfyrddin) yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Caerfyrddin. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Practis Deintyddol Brynteg yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd (un prif ddeintydd, ddau ddeintydd cysylltiol ac un deintydd o dan hyfforddiant), chwe nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd, ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Coronau a phontydd
- Dannedd gosod
- Triniaethau cosmetig
- Estheteg yr wyneb
- Gwynnu dannedd
- Invisalign (Sythu dannedd)
- Arbedwyr dannedd ar gyfer chwaraeon
- Roedd ymgynghoriadau mewnblannu ar gael, ond roedd y driniaeth yn cael ei chynnal mewn chwaer-bractis yn Rhydaman.

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn archwilio sut mae Practis Deintyddol Brynteg yn bodloni'r safonau gofal a geir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel ar gyfer cleifion. Gwelsom fod safon y cyfleusterau clinigol yn eithriadol o dda a bod y safon o gadw cofnodion yn dda. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, gwaredu gwastraff a dadheintio. Roedd rhai meysydd i'w gwella ynglŷn â chadw cofnodion.

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi. Ar y cyfan roedd systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod anghenion staff, trefniadau ar gyfer cwyno a pholisïau a gweithdrefnau yn cael eu monitro'n barhaus.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.**

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion at y practis ac roedd 18 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Gwnaethom hefyd siarad â phedwar claf tra ein bod yn y practis. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru gyda'r practis ers rhwng pedair a 18 mlynedd.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i derbyn yn y practis, a bod y staff wedi estyn croeso iddynt. Pedwar claf yn unig a ddywedodd wrthym eu bod wedi cael y profiad o oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintydd, ond dywedodd pob un o'r cleifion nad oedd hyn yn achosi problem iddynt. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Gwasanaeth da, staff cyfeillgar o'r dderbynfa i'r ystafell driniaeth"*

*"Gwasanaeth ardderchog"*

*"Bodlon iawn. Mae'r holl staff yn barod iawn eu cymwynas."*

*"Bob amser yn barod eu cymwynas, yn enwedig mewn argyfyngau"*

*"Mae pawb yn y practis yn groesawgar iawn. Mae bob amser yn lân ac yn daclus. Mae'r deintyddion bob amser yn esbonio a thrafod triniaethau. Dw i'n ffodus iawn o fod yn gallu derbyn y fath ofal deintyddol ardderchog - ac rydw i'n ei werthfawrogi'n fawr iawn. Rydw i wedi cael llawer o broblemau deintyddol ... ac mae pob aelod o'r staff yn gydymdeimloll iawn."*

*"Dyma bractis a gaiff ei redeg yn dda. Mae apwyntiadau bob amser ar gael. Mae tîm Brynteg, Caerfyrddin, yn wych"*



*"Dw i bob amser yn lwcus i gael apwyntiad pan fydd angen gweld deintydd arna' i. Mae staff y dderbynfa bob amser yn ceisio cynnig apwyntiad imi ... dw i'n ddiolchgar iawn iddynt".*

Pan wnaethom ofyn i'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth roedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau'r cleifion ynglŷn a gwybodaeth am driniaethau'n cynnwys y canlynol:

*" Caiff gwybodaeth ei rhoi bob amser ac unrhyw opsiynau eraill posibl eu hesbonio."*

*"Mae'r staff bob amser yn dda wrth esbonio'r driniaeth sydd ei hangen".*

Roedd 15 o gleifion yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwnaethom wirio neges peiriant ateb y practis a chanfod bod gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau y tu allan i oriau wedi'i recordio er gwybodaeth cleifion.

Roedd y practis ar agor ddydd Llun i ddydd Mercher rhwng 9am a 6pm, ar ddydd Iau rhwng 9am a 3pm ac ar ddydd Gwener rhwng 9am a 2pm Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau rheolaidd ac apwyntiadau brys.

Dyweddodd bron i draean o gleifion yn yr holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, pe bai angen iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, gwelsom fod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn glir yn y manau aros ac yn nhafenni gwybodaeth y practis, er mwyn i gleifion ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn rhwydd pe bai angen. Ni wnaeth neb drafod unrhyw bryderon tra ein bod yn y practis.

Gwelsom flwch awgrymiadau er mwyn i gleifion roi adborth i'r practis. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio holiaduron, ac yn flaenorol ei fod wedi cymryd rhan mewn arolwg cenedlaethol er mwyn casglu barn cleifion ar y practis deintyddol. Roedd y staff yn cofnodi adborth anffurfiol ac adborth ar lafar gan gleifion.

Roedd cofnodion y cleifion a'n holiaduron yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu am risgiau, manteision a thriniaethau amgen er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth. Roedd pob claf hefyd yn derbyn cynllun triniaethau ysgrifenedig.

Roedd amrywiaeth eang o ddeunydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y dderbynfa/man aros. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion ac roeddent yn cynnwys crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol am y practis.

Roedd gan y practis hefyd wefan a oedd yn rhoi canllawiau clir a gwybodaeth ar gyfer cleifion.

Roedd cleifion yn gallu dewis siarad Cymraeg neu Saesneg â phawb – o staff y dderbynfa i'r clinigwyr.

## ***Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal***

**Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym, â'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel ar gyfer cleifion. Gwelsom fod safon y cyfleusterau clinigol yn eithriadol o dda a bod y safon o gadw cofnodion yn dda. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, gwaredu gwastraff a dadheintio. Roedd rhai meysydd wedi gwella ynaglŷn â chadw cofnodion.**

### **Cyfarpar/Dogfennaeth Radiograffig**

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a phroffion, ac roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Roedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu bod yn defnyddio cyfarpar radiograffig a'u bod wedi cynnal archwiliadau sicrwydd ansawdd ar gyfer cyfarpar radiograffig. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel, a bod y cyfarpar radiograffig yn cael ei fonitro'n barhaus.

### **Dadebru a chymorth cyntaf**

Gwelsom fod siartiau llif manwl ar waith a oedd yn amlinellu sut i ymdrin â gwahanol argyfyngau meddygol. Roedd staff yn wybodus ynaglŷn â'r hyn mae'n rhaid ei wneud mewn argyfwng meddygol, ac roedd polisi dadebru ar waith er mwyn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob aelod o staff.

Roedd dau aelod o staff yn swyddogion cymorth cyntaf penodedig, ac roeddent wedi cwblhau hyfforddiant priodol. Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru priodol a threfnus, rhag ofn bod argyfwng meddygol (llewyg). Ar adeg yr arolygiad roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU), Roedd hyn yn golygu bod staff wedi eu hyfforddia bod y cyfarpar ganddynt i reoli argyfyngau meddygol.

### **Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys**

Roedd y cyffuriau brys wedi eu storio'n drefnus mewn lleoliad da a diogel. Roedd system gadarn ar waith i sicrhau bod dyddiadau dod i ben cyffuriau'n

cael eu monitro. Roedd y padiau rhagnodiadau hefyd wedi'u cadw'n ddiogel er mwyn atal pobl rhag mynd atynt heb ganiatâd. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac i adrodd y digwyddiadau hyn. Cafwyd trafodaeth â rheolwr y practis ynglŷn â datblygu ffurflen ar gyfer cofnodi unrhyw gyffuriau sy'n cael eu gweinyddu mewn argyfwng, er mwyn ei rhoi i weithwyr meddygol proffesiynol (yn ôl y gofyn). Roedd hyn yn dangos bod y practis yn flaengar ei feddwl ac yn agored i ffyrdd newydd o weithio.

### **Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus**

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol ar waith. Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer trin mercwri'n ddiogel.

### **Dadheintio offer a chydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1)**

Roedd gan y practis un ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol, a oedd yn bodloni'r safonau a nodir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (adolygiad 1). Roedd staff yn defnyddio cynwysyddion priodol wedi'u selio er mwyn cludo offerynnau rhwng yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd sinciau golchi dwylo neilltuedig ar gael, ac roedd staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol. Roedd pob offeryn yn cael ei fagio ar ôl iddo gael ei sterileiddio, â dyddiad prosesu arno. Roedd yr holl offer a wiriwyd o fewn eu dyddiad, ac roedd system fewnol ar waith i wirio hyn, gydag amserlenni addas wedi eu nodi. Roedd hyn yn golygu bod prosesau addas ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.

Gwelsom fod pob aelod o staff sy'n cyflawni gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant priodol i ddangos eu bod yn gymwys wrth eu dyletswyddau.

Gwelsom fod llyfrau cofnodi ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau safonol a oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd bob dydd.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliadau rheolaidd o'i ofynion rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i fonitro cydymffurfiaid parhaus â gofynion rheoli heintiau, ac i sicrhau bod offer yn ddigon glân a diogel i'w defnyddio ar gleifion.

Gwnaethom argymhell bod yr ystafell yn cael ei thacluso er mwyn rhoi rhagor o le ar gyfer gweithio ac i leihau'r risg o groes-heintio.

### **Cyfleusterau clinigol**

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gweld eu bod yn lân, yn daclus ac yn drefnus, a'u bod yn cynnwys yr holl gyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd niferoedd digonol o offerynnau deintyddol a chyfarpar, i gyd mewn cyflwr da, wedi ei storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom gyflenwad digonol o eitemau un tro a chyfarpar diogelu.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais sy'n rhoi cyflenwad o aer glân i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offerynnau deintyddol eraill) wedi'i gynnal a'i gadw a'i archwilio yn unol â'r gofynion. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal, er mwyn gwirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Ar y cyfan, gwelsom fod y cyfleusterau clinigol o safon ardderchog.

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd safon cofnodion y cleifion yn y practis yn dda, gyda chofnodion trwyadl a manwl ar gyfer gofal a thriniaeth cleifion.

Gwelsom fod hanesion meddygol cleifion yn cael eu diweddarau ar bob ymweliad, er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu cofnodi, ac i ymateb iddynt. Roedd y system a oedd ar waith yn gyfuniad o gofnodion papur a chofnodion electronig, lle roedd hanesion yn cael eu gwirio gan staff y dderbynfa, a'u llofnodi gan gleifion. Gwelsom hefyd rai cofnodion digidol gan y deintyddion, a oedd yn anghyson ac nad oeddent wedi cael eu cydlofnodi gan y deintydd. Gwnaethom dynnu sylw at yr angen i hanesion meddygol gael eu llofnodi gan y claf, a'u cydlofnodi gan y deintydd, yn unol â'r arferion gorau.

Gwelsom fod hanesion cymdeithasol cleifion yn cael eu cofnodi a'u diweddarau.

Gwelsom fod y deintyddion yn casglu ac yn cofnodi cydsyniad y cleifion i dderbyn triniaeth. Gwelsom hefyd fod y deintyddion yn cofnodi cynlluniau triniaeth ac opsiynau triniaeth yn gyson.

Fodd bynnag, gwelsom fân anghysondebau ynglŷn â'r canlynol:

- Cofnodi'r cyfiawnhad dros sganiau pelydr-X
- Cofnodi amllder galw cleifion yn ôl
- Manyllder adrodd radiograffig
- Y system ar gyfer archwiliadau radiograffig
- Didoli cofnodi archwiliadau mewn-eneuol oddi wrth archwiliadau all-eneuol yn y cofnodion deintyddol.

Fodd bynnag, ar y cyfan, rhoddwyd sicrwydd inni fod ansawdd y cadw cofnodion a sganiau pelydr-X o safon uchel iawn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella cadw cofnodion yn y meysydd a nodwyd.***

Roedd y practis wedi trefnu rhaglen archwilio clinigol gyda phractis cyfagos, sy'n arfer nodedig.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dîm o staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi. Ar y cyfan roedd systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod anghenion staff, trefniadau ar gyfer cwyno a pholisïau a gweithdrefnau yn cael eu monitro'n barhaus.**

### **Staff**

Roedd tri phrif ddeintydd a oedd yn berchen ar dri phractis. Un o'r prif ddeintyddion yn unig a weithiai ym Mhractis Brynteg (Caerfyrddin). Roedd y practis yn darparu gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG. Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn canolbwyntio ar y cleifion, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Roedd pob deintydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt gontractau cyflogaeth. Roedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Gwelsom fod dystysgrifau ar gyfer pob un o'r deintyddion yn cadarnhau eu cofrestriad gydag AGIC wedi'u harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r rhain â chyfeiriad newydd AGIC. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y broses o wneud hyn eisoes wedi dechrau.

Gwelsom gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer holl aelodau'r staff clinigol, ac roedd gan bob un ohonynt yswiriant indemniad ar gyfer eu gwaith clinigol.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus oedd wedi'i gwblhau gan y staff clinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Gwelsom ffeil ymsefydlu ac ynddi wybodaeth berthnasol, a oedd yn cael ei defnyddio i gynorthwyo staff newydd wrth iddynt ddechrau eu swydd.

Gwelsom gofnodion o'r cyfarfodydd tîm, a dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom fod amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod, a bod aelodau'r tîm yn cyflwyno eu pryderon a'u testunau eu hunain i'w trafod. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd rhai arferion wedi newid o ganlyniad i drafodaethau mewn cyfarfodydd tîm. Roedd hyn y golygu bod gan y tîm le mwy ffurfiol i drafod pryderon, a'u bod yn dysgu o ganlyniad i hyn, er mwyn gwella'u harferion.

Roedd system ar waith ar gyfer arfarniadau ffurfiol, er nad oedd y rhain wedi cael eu diweddarau. Mae arfarniadau'n ffordd bwysig o roi cymorth ffurfiol i staff ystyried eu gwaith eu hun ac i nodi unrhyw anghenion cymorth ac unrhyw anghenion o ran datblygiad proffesiynol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y byddai'r rhain yn dechrau yn y dyfodol agos.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd.***

### **Amddiffyn Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith, er nad oedd hwn yn cynnwys manylion cyswllt lleol ar gyfer gwneud atgyfeiriadau.

Roedd staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion. Roedd polisi ar waith a gwnaethom argymell ychwanegu manylion cyswllt lleol, pe bai angen ar staff wneud atgyfeiriad.

### **Cwynion**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar y weithdrefn gwyno a gweld ei bod yn cydymffurfio â gofynion 'Gweithio i Wella'<sup>4</sup> y GIG. Roedd gweithdrefn gwyno ar wahân a oedd yn ymdrin â'r trefniadau gwahanol ar gyfer cleifion preifat. Roedd hyn yn cydymffurfio â'r gofynion o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi'n glir a chyda digon o fanylion am y camau yr oedd y practis wedi eu cymryd i ymdrin â chwynion. Roedd y cwynion yn cael eu cadw'n ganolog, ar wahân i gofnodion y cleifion. Roedd sylwadau a phryderon llafar yn cael eu cofnodi hefyd, ond roedd y rhain yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom argymell cofnod canolog ar gyfer pryderon llafar/anffurfiol er mwyn amlygu tueddiadau yn gynnar. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis ffurfioli ei ddull o adolygu cwynion yn eu cyfanrwydd dros amser, er mwyn canfod tueddiadau a phatrymau fel ffordd ychwanegol o wella'r gwasanaeth.

---

<sup>4</sup> Nod **Gweithio i Wella** oedd ei wneud yn haws i gleifion a gofalwyr leisio pryderon.

Cyflwynodd ddull unigol a mwy cyfannol, gan ddod â'r broses o reoli cwynion, digwyddiadau a honiadau at ei gilydd, yn seiliedig ar yr egwyddor 'archwiliwch unwaith, archwiliwch yn dda'.



Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus wrth godi unrhyw bryderon gyda'r rheolwyr ac yn uniongyrchol gyda'r deintyddion. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith, a gallai'r staff ei ddefnyddio i nodi ac i uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

### **Polisïau a gweithdrefnau**

Yn gyffredinol, gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, a bod y rhain yn gyfyngedig i'r practis ac yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol yn amgylchedd y practis. Roedd tystysgrifau a chofnodion ar waith ar gyfer gwaith cynnal a chadw hefyd. Roedd polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio gyda'r wybodaeth fwyaf cyfredol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

### **Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygrych a chroesawgar ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.**

Lleolir y practis yn nhref Caerfyrddin. Roedd yr adeilad wedi'i godi i'r pwrpas i safon uchel iawn. Lleolir y practis ar dri llawr, a chanddo lifft ar gyfer pobl rhwng pob llawr, er mwyn rhoi mynediad hygrych ar gyfer pobl sydd ag anawsterau symudedd. Roedd y dderbynfa, swyddfa rheolwr y practis a thŷ bach hygrych ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn ar y llawr daear. Lleolir dwy ystafell driniaeth a thŷ bach i gleifion ar y llawr cyntaf, ac roedd pedair ystafell driniaeth a thŷ bach arall i gleifion ar yr ail llawr. Roedd cyfleusterau parcio'n gyfyng, ac roeddent yn fwy fel man gollwng yn syth o flaen y practis. Fodd bynnag, roedd maes parcio mawr o fewn pellter cerdded byr.

Canfyddom fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn – y tu mewn a'r tu allan. Yn fewnol, roedd yr amgylchedd yn ddigon golau, cynnes, glân a thaclus ac roedd digon o awyr iach.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Roedd arwydd dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) y tu allan i'r practis, ac arno enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion, oriau agor a rhifau brys ar gyfer cleifion. Roedd rhestrau prisiau i gleifion y GIG a chleifion preifat wedi'u harddangos yn glir yn y dderbynfa.

Roedd tŷ bach ar wahân a chyfleusterau newid i'r staff. Roedd y tai bach i'w gweld yn lân ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio.

Roedd manau aros ar bob llawr a oedd o faint addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth. Roedd gan staff y dderbynfa ddealltwriaeth dda o sut i gynnal cyfrinachedd cleifion. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys deunydd darllen ac amrywiaeth eang o gyngor a phosteri a thafleini hyrwyddo iechyd. Roedd hefyd sgrin deledu a oedd yn hyrwyddo gwasanaethau.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad.

Roedd gohebiaeth bapur cleifion wedi eu storio'n ddiogel o dan glo, ac roedd copi wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael ei wneud bob dydd. Roedd hyn y golygu bod y practis yn cymryd rhagofalon priodol i ddiogelu gwybodaeth am y cleifion.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Brynteg, Caerfyrddin, yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, pan y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol Brynteg (Caerfyrddin)**

**Dyddiad yr Arolygiad: 19 Mai 2015**

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<b>Profiad y Claf</b>			
	Dim byd wedi'i nodi			
	<b>Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal</b>			
Tudalen 12	Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella cadw cofnodion yn y meysydd a amlygwyd. [Safonau Iechyd a Gofal 3.5; GDC 4.1]	Gwnaethom gynnal cyfarfod clinigwyr ar 2 Mehefin 2015, a thrafod adroddiad radiograffig newydd sydd wedi'i roi ar waith er mwyn cynnwys amllder sganiau pelydr-X 'bitewing'. Yn y cyfarfod clinigwyr ar 1 Gorffennaf 2015 – roedd pob clinigydd bellach yn defnyddio'r templed adrodd radiograffig yn rheolaidd. Cynhaliwyd archwiliad o adrodd radiograffig hefyd yn y cyfarfod clinigwyr ar 1 Gorffennaf 2015, ac rydym yn bwriadu archwilio sganiau pelydr-X cleifion bob tri mis.	Louise Anderson	

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
Tudalen 14	Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd. [Safonau Iechyd a Gofal 7] [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.1]	Cynhaliwyd arfarniadau ar gyfer y rhan fwyaf o staff, a byddant wedi'u cwblhau erbyn mis Awst 2015	Louise Anderson	
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
	Dim byd wedi'i nodi			

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):**

.....

**Teitl:**

.....

**Dyddiad:**

.....